YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1894. [RHIF 79

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCHEDIG TITUS LLOYD.

FE ddywedodd cyfaill wrthyf neithiwr fod mwy o enwogion wedi eu geni yn Ngheredigion nag yn siroedd ereill Cymru i gyd gyda'u gilydd. Nid wyf, wrth adrodd hyn, yn hawlio enwogrwydd i Mr. Lloyd, er ei fod yn dra adnabyddus yn nghylch yr enwad y perthynai iddo, ac yn cael parch gan bawb a'i adwaenent, a chan y rhai hyny, yn oreu, a'i adwaenent yn oreu. Nid wyf, 'chwaith, yn meddwl amheu cywirdeb sylw fy nghyfaill; ond, os gwir yw, yr wyf yn beiddio dweyd fod bai mawr yn rhywle, ac y dylai siroedd ereill Cymru edrych ati, a cheisio ennill iddynt eu hunain ragor o'r *laurels*. F'el y dywedodd Wendell Philips wrth y foneddiges a ofynodd a oedd lle i'w mab yn ei alwedigaeth ef. Oes, meddai, digon o le—*ar y top!* Mae digon o *niches* yn nheml clod i'r sawl allo ddringo. Dirgelwch llwyddiant bechgyn Ceredigion, gan mwyaf, yw yr ysgolion rhagorol sydd wedi bod o fewn cyrhaedd iddynt er ys mwy na deucant o flynyddoedd; ond y mae ynddynt hwythau, fel yn yr Ysgotiaid, yr hyn a elwir *push* a *pluck* hefyd.

Fe anwyd Mr. Lloyd yn Ngheredigion, yn Mhlwyf Bridell, yn Mai, 1795. Yr oedd yn fab i'r Parch. Evan Lloyd, yr hwn a ddaeth i fod yn weinidog yn y Nottais a'r Wig yn Ionawr, 1808, ac a fu farw Gorphenaf 30, 1847, yn 83 oed, wedi bod yn pregethu dros 60 mlynedd.

Ganwyd Evan Lloyd yn Mhlwyf Nefyn, yn Sir Benfro, ac yr oedd yn y *militia* pan diriodd y Ffrancod yn Abergwaun *(Fishguard)* yn 1797, ac yn un o'r fyddin fechan dan yr Arglwydd Cawdor, a fu yn derbyn arfau y Ffrancod ar eu gwaith yn rhoddi eu hunain i fyny yn garcharorion. Ymunodd â chrefydd yn foreu iawn gyda'r Bedyddwyr yn Aberteifi, a chafodd ei alw gan yr eglwys yn ieuanc i arfer ei ddoniau fel pre-

gethwr. Bu dros amser yn cynnorthwyo'r gweinidog, Mr. Williams. Yr oedd Mr. W., mae'n debyg, yn wr cyfoethog a haelionus. Dan ei nawdd ef, cafodd Mr. E. Lloyd gyfleusderau a chynnorthwyon amgenach na'r cyffredin yn ei amgylchiadau ef, tuag at ei gymhwyso at waith y weinidogaeth; ac yn neillduol o ran darllen llyfrau defnyddiol, a dysgu barnu drosto ei hun. Parhaodd yr awydd i ddarllen, a'r ymdrech i ddysgu gydag ef, gan gynnyddu yn hytrach na lleihau, bron hyd y diwedd. Y mae yn un nod o'i uchel gymmeradwyaeth gyda'i frodyr Calfinaidd iddo fwy nag unwaith gael ei bennodi i ysgrifenu Llythyr y Gymmanfa, a'i appwyntio i fod yn bregethwr teithiol trwy Ogledd Cymru. Bu ar un o'r teithiau hyn yn 1800, flwyddyn cyn ei ordeiniad, yr hyn a gymmerodd le yn Ffynnon Henri, yn 1801. Yn fuan ar ol hyn, teimlodd amheuaeth yn nghylch rhai o bynciau y ffydd. Daeth i gyffyrddiad â'r Parch. W. Richards, o Lynn, yr hwn oedd foneddwr o gymmydogaeth Aberteifi. Ni fu hyn yn help iddo i barhau (yn ol y syniad cyffredin) yn iawngred. Dechreuwyd amheu ei iachusrwydd, a'i alw yn heretic. Yr oedd rhyw wewyr mawr yn yr eglwysi Bedyddiedig tua'r adeg hon. Gwelir hanes y modd y pellhaodd yn raddol oddiwrth ei hen frodyr yn Yr Ymofynydd, 1847, tdd. 48 a 93. Y mae merch a mab iddo etto yn fyw yn ardal y Nottais. Bach oedd y gyflog am bregethu, a gorfuwyd arno weithio yn galed er sicrhau cynnaliaeth i'w wraig a'i blant.

Tybir i Mr. Titus Lloyd ddechreu pregethu tua 1823, ac iddo barhau wrthi ryw 55 mlynedd. Ordeiniwyd ef yn y Wig, ond nis gwyddom yn sicr yn mha flwyddyn, tebyg mai yn 1823 - ei dad a'r Parch. J. E. Jones, Penbont ar Ogwr yn gwasanaethu. Tua 1822 neu 1823 y daeth Mr. Jones i Benbont. Syrthiodd gofal y Nottais ar Mr. Lloyd ar farwolaeth ei dad.

Nid oedd Mr. Lloyd wedi cael llawer o fanteision addysg, ond yr oedd ganddo lyfrgell dda, ac yr oedd wedi gwneuthur defnydd da o honi. Yr oedd yn Fedyddiwr gwresog ac o argyhoeddiad. Ar bynciau'r athrawiaeth, yr oedd yn Undodwr trwyadl, nid o ysgol Priestley a Belsham, na Channing, na Parker, na Martineau, fe allai; ond o'i ysgol ei hun, fel yr oedd wedi gallu ei darllen a'i deall yn y Beibl. Ni phroffesai ei hun yn ddysgedig. Nid oedd wedi bod mewn coleg erioed, nac erioed wedi talu sylw i bynciau dyfnion athroniaeth. Nid oedd ei amser a'i alwedigaeth wedi caniatau hyny iddo. Ond gwyddai sut oedd hufenu. Hufen pob athrawiaeth a phob athroniaeth yw y bywyd sanctaidd a phur. Symlai'r athrawiaethau ar hyd linellau athroniaeth synwyr cyffredin, a hyny heb ddweyd byth *good morning* wrth Hobbes na Locke, na Kant na Hamilton, na Berkeley na Hume, na Fichte na Schelling na Hegel, na Comte na Darwin na Spencer, na Carlyle nac Emerson na George Elliot. O bossibl na wawriodd ar ei feddwl erioed y gallasai'r enwau hyn, fel y gair Mesopotamia, swyno a gwefreiddio cynnulleidfa. Digon iddo ef oedd dwyn gerbron wersi oddiwrth Moses a Josua, a Dafydd a Solomon, Esaiah ac Eseciel, Daniel a Malachi; Ioan a'r Iesu, Petr a Phaul, ac ereill o'r saint yn yr Hen Destament a'r Newydd. Dyfynai o'r ffynnonau hyny i bwrpas

—creai ddyddordeb yn ei bwnc, a gyrai ei bobl adref at eu Beibl—y llyfr hwnw oedd o fewn cyrhaedd iddynt.

Pregethai yn dda, yn fynych gyda nerth ac arddeliad rhyfeddol. Credwn ei fod yn fwy o bregethwr gartref nag oddicartref. Clywsom am bregethwr bach bach unwaith na phregethai byth ar ddim llai nag etholedigaeth ddiamodol neu rywbeth cyffelyb. Meddai Mr. Lloyd ar fwy o ddoethineb na hyny. Teimlai bwysigrwydd ei swydd, a gwyddai beth oedd y nod yr amcanai ato yn ei holl bregethau a'r holl wasanaeth yn yr eglwys. Nid dim ond gogleisio'r clust, a difyru'r meddwl a dyrysu y rheswm, oedd ei gais ef, ond yn hytrach i wneuthur y teimladau yn fwy dwfn a dwys, y serchiadau yn fwy difrifol a gwresog, y deall yn fwy cyflym, y meddwl yn fwy pur, y gydwybod yn fwy byw. Cyfeiriai ei holl bregethau at y nod uchel o wneuthur dynion yn well. Ceisiai gyfranu addysg, ond addysg ymarferol yn benaf, fel y byddai dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda. Oddiar brofiad helaeth a sylw manwl, adwaenai'r natur ddynol yn bur dda. Gwyddai ei hangenion, a defnyddiai'r moddion addas i'w diwallu. Yr oedd yn neillduol lwyddiannus mewn angladd. Yn fynych gwelodd ei wrandawyr mewn mor o ddagrau dan ddylanwad ei barabl tyner; ond trwy ddagrau eu tristwch a'u galar, galluogai hwynt i weled y ffordd at y ffynnon—ffynnon gobaith, ffynnon dyddanwch i drallodedigion y ddaear.

Mab i Mr. Lloyd yw y Parch. E. W. Lloyd, gynt o'r Cwmbach, wedi hyny, o'r Drenewydd yn Nottais, yr hwn a fu farw yn sydyn ar yr 17eg o Fehefin. Ceir manylion ei fywyd etto. Mab arall yw y Parch. John Briggs Lloyd, o Bournemouth. Treuliodd ei fab hynaf, y diweddar Mr. Titus Lloyd, fywyd o wasanaeth gwerthfawr mewn llawer ffordd i'r achos yn y Nottais. Wyr i Mr. Lloyd, mab merch, yw y Parch. W. J. Phillips sydd yn gweinidogaethu yn y Nottais yn bresennol, ac y mae ganddo yntau fab na synwn I ddim na fydd e'n bregethwr doniol ryw ddydd—o leiaf, y mae arno enw un a fu yn ddyn mawr, ac yn bregethwr dylanwadol yn ei amser—William *Priestley*. Nid yw yn flwydd oed etto.

Bu'r Parch. Titus Lloyd farw 23 Hydref, 1878, yn ei 84 mlwydd oed. Aeth i'r gwely y nos o'r blaen, i bob ymddangosiad yn ei iechyd arferol; ond erbyn dranoeth, yr oedd yr elfen fywydol wedi dianc, heb aflonyddu dim ar y ty o bridd yr oedd wedi preswylio ynddo cyhyd o amser.

Hydref 28, 1878, canodd y Parch. W. Thomas, M.A. (Gwilym Marles) fel y canlyn:—

"Pa derfyn dedwydd i ba fywyd cu!
O'i nosawl gwsg i'w olaf ca'dd ei ddwyn;
Heb gyffro ac heb dwrf ei ddiwedd fu,
Yn ddarlun gwir o'i dawel fywyd mwyn.
Am orphwys galw wnai ei ymdrech hir,
Er mae nid gorphwys oedd ei anian ef;
Ond bellach gorphwys ga'n y dedwydd dir,—
Nid oes ond gorphwys yn nhrigfanau'r nef.

Yn hir fe gofir y seraphaidd dan
  A losgai yn ei weinidogaeth fyw;
Nid byth arbedai ei egnioedd glan,
  Dawn llwyr ei fywyd a gyssegrai i Dduw.
Fe welodd wrth ei draed genedlaeth ddwy;
  Y gyntaf do ynt heddyw yn y nef;
Yr ail, yn britho'u henaint y maent hwy,
  A buan buan y canlynant ef.

Yn swn y mor a garai er yn llanc—
  Y mor a chwery ryw dragwyddol gan—
Yr huna'n esmwyth wedi esmwyth dranc;
  A llawer cyfaill ddaw yn drist ei ran
I wel'd y fan y gorwedd un mor gu,
  Fel ar ryw bererinol santaidd daith,
I wylo deigryn dros yr amser fu,
  Am un hyd angeu lynodd wrth ei waith.

Yn iach bererin-batriarch, yn eich bedd!
  I lanw'r bwlch, Duw'n unig a wyr pwy,
Pwy ddaw a'i genadwri o nefol hedd,
  Pwy ddyg eich mantell ar ei ysgwydd mwy.
Ond O, ei arfaeth Ef ni threulia hi,
  Mae ganddo weithwyr ffyddlon wrth ei raid;
Ni saif y gwaith mor dda a garech chwi,
  Un gwaith ni saif os iddo Dduw yn blaid."

Mehefin 15, 1894. R.J.J.

ADGOFION BOREU OES.—III.

Fe ddywedir taw yr afalau chwerwaf yn ieuanc ydyw y rhai melusaf ar ol addfedu. Yr wyf yn credu fod hyn yn wirionedd am rhai cymmeriadau. Wrth ddarllen hanesyddiaeth yr wyf yn cael yn fynych fod y dywediad hwn yn cael ei wireddu. Y mae yn wir yn hanes Paul, cymmeriad yr hwn sydd yn wybyddus i bawb o honom. Fe ganfyddir y llaw hono a ddarfu ysgrifenu, wedi myned o honi yn hen, "Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad," pan yn ieuanc wedi ei throchi â gwaed. Dyna Ioan, mab Zebedeus drachefn, yr hwn, o herwydd ei dymher boeth a thrystfawr pan yn ddysgybl ieuanc i'r Iesu, a alwyd ganddo "Mab y daran;" eithr wedi myned o hono yn henach fe addfedodd ei deimladau i'r fath dynerwch nes derbyn o hono y teitl urddasolaf allai dylynwr Crist ei chwenych, "Y dysgybl anwyl;" ïe, addfedu i'r fath dynerwch nes derbyn o hono yr anrhydedd unigol o bwyso ei ben ar fynwes y Presennoldeb grasol hwnw. Yr Ioan hwnw pan yn ieuanc oedd yn awyddus am gael galw tân i lawr o'r nefoedd i gael llosgi y Samariaid, ond yr un Ioan pan yn hen a alwai ei gyddynion yn "blant bychain," ac yn llosgi o gariad at bawb. "Os dywed neb, Yr wyf yn caru Duw, ac efe yn cashau ei frawd, celwyddog

yw: canys yr hwn nad yw yn caru ei frawd, yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw, yr Hwn nis gwelodd?"

Yr wyf wedi cael llawer i brofiad personol o gyffelyb natur, er nid i'r un graddau. Y mae Jaci o'r Llidiart yn ddigon i foddloni fy amcan presennol. Yr oedd wedi byw bywyd annuwiol a phechadurus yn ystod dyddiau ei ieuenctid, a chlywais ef ragor nag unwaith yn dweyd, yn nghyda dagrau edifeirwch yn gwlychu ei ruddiau, ei fod yn ofni ei fod wedi cyflawnu y pechod aruthrol hwnw nas gellir maddeu iddo yn y byd hwn, nag ychwaith yn y byd y ddaw, y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan, taw beth all y cyfryw bechod fod! Nid wyf yn credu fod Jaci, druan, yn gwybod ei hun; ond gwn hyn, fod yr ofn o hyny yn ddyferyn chwerw yn ngwaelod cwpan duwioldeb melus ei fywyd dylynol. Ac os nad oedd yn ei allu i ddadwneyd y gorphenol, etto yr wyf yn sicr ei fod yn ceisio yr iawn goreu am droseddau boreu oes trwy ymdrechu byw bywyd o dduwioldeb, cariad, ac o weithredoedd da. I mi, yn awr, yr oedd ei syniadau crefyddol yn wallus iawn, ond os gwnaeth dyn erioed, yn ogystal a phroffesu crefydd, geisio ei byw allan yn ei fywyd dyddiol, gwnaeth ef. Heblaw y duwioldeb dwfn ag oedd yn nodweddu y 40 neu yr 50 mlynedd diweddaf o'i fywyd, yr oedd yn hen gymmeriad gwahanol iawn i'r cyffredin o ddynoliaeth.

Yr oedd o duedd araf iawn, iawn, yn naturiol felly, ac fel yr heneiddiai ai yn arafach fyth. Pan yn ceisio ganddo gymmeryd rhan mewn cyfarfod gweddi neu seiat, byddai yn cymmeryd rhyw ddeg neu bymtheg mynud i drefnu ei hun yn y sêt, ac i nesu at yr allor lle byddai y llyfr emynau a'r Beibl yn aros. Yr hen Shon o'r Beili Glas oedd yn trefnu'r cyrddau. Gofynai Shon, "Dafydd o'r Llidiart, dewch ymla'n i roi gair mas i ganu;" yn mhen tipyn mae Dafydd yn unioni ychydig, ac yn rhoi pesychiad, symmud tipyn drachefn, a phesychiad arall, yn tynu ei law dros ei wyneb gan wasgu ei drwyn, megys yn teimlo a oedd yr enaint yn disgyn ar hyd y farf, sef barf Dafydd o'r Llidiart. Yna codai, ac ai i'r sêt fawr ar yr ail alwad. Wedi cydio yn y llyfr emynau, yno yr arosai am yspaid i droi a throsi i chwilio am emyn; yna rhoddai y rhif, a darllenai gydag arafwch mawr. Edrychai pawb y naill ar y llall, a blaenor y gân mewn penbleth. Wedi gorphen darllen yr emyn dywedai'r arweinydd, "Dafydd, 'dos dim tôn gyfarwydd gyda ni ar hwna." "Ho, ho," meddai yntau, gyda dwfn besychiad. Chwiliai drachefn o Genesis hyd Ddatguddiad y llyfr emynau, ac nid anaml y gwnai yr un fath yr ail dro. Wedi canu elai Dafydd i weddi, ac ni chlywem ef am yspaid hir yn tori geiriau'n hyglyw, a chofus genyf fyned lawer gwaith am dro i borfeydd gwelltog, ac heibio i ddyfroedd tawel breuddwydion yn mreichiau cwsg tra byddai Dafydd yn ei *rowndo* hi, fel y dywedem.

Yn awr, pa allu bynag a ddichon fod mewn gweddi, sicr yw ei bod yn sancteiddio'r bywyd cyffredin, yn dyfnhau ac yn puro'r teimladau, yn gwroli ac yn sirioli'r blin bererin dan faich bywyd, yn taflu dysglaer belydr ar dristwch, yn ein nerthu i ymgadw rhag y drwg,

oblegyd byddai rhuthro yn wirfoddol i'r drwg y foment nesaf ar ol gweddio am gael ein gwared rhagddo yn bechod mawr, a byddem yn cymmeryd enw Duw yn ofer.

Yr oedd Dafydd o'r Llidiart, fel ag y dywedais, yn wr duwiol, ac yr wyf yn teimlo'n sicr yn fy meddwl fod ei weddi bob amser yn esgyn i fyny oddiar allor ei galon—gweddi ag sydd yn ymddangos i mi yn awr wrth feddwl am dani yn un wir ddyeithr. Yr oedd ynddi rhai brawddegau a ystyriaf yn ymdywalltiadau o farddoniaeth ysprydol; brawddegau ereill drachefn ag wyf yn coleddu barn gwahanol am danynt, os nad wyf yn pechu wrth groniclo fy adgofion o weddi ddefosiynol hen gymmeriad anwyl a garwn; eithr er hyn oll, yr oedd pob gair o honi i mi ar y pryd hwnw mor enaid-ymddyrchafol a'r llall, ac yr oeddwn yn cael dedwyddwch pur i wrando arno ar ei liniau.

Yr oedd tebygolrwydd mawr yn ngeiriad y weddi ar bob amgylchiad, ond nid oedd y ffaith hono yn ei gosod yn llai ei gwerth yn fy ngolwg, Cofus genyf i forwyn ieuanc farw yn sydyn yn y pentref o'r *typhoid fever*, ac fod rhyw gamsyniad rywfodd wedi bod gyda golwg ar pa bryd y cynnelid yr wylnos. Dim ond ychydig o'r cymmydogion oedd yn dygwydd bod yn gwybod, ac wedi presennoli eu hunain, ond nid oedd yno neb allasai gymmeryd rhan yn y gwasanaeth, a bu yn rhaid i mi redeg i gyrchu Jaci o'r Llidiart, yr hwn, ganol nos megys canol dydd, oedd yn wastad yn barod i wneyd yr hyn ag oedd yn ei allu pan y buasai amgylchiadau yn dygwydd rheidioli ei gynnorthwy. Yr oedd Deio, Plasywaun, wedi myned i'r "clwb clirio," a William, Caeffwrn, heb ddychwelyd o ffair Gwylbarna, Llandilo, i'r hon yr oedd wedi myned ar fusnes amaethyddol.

Clywais I neb erioed ond Jaci yn defnyddio'r gair "Calcutta" pan yn anerch gorsedd gras, yn nghyda "Rhoses (Rhosydd) Moab)," ac yn terfynu ei gymundeb geiriol â'r Ysprydd Mawr gyda'r pennill hynod a ganlyn:—

"Afon fawr yw afon ange', Rhaid ei chroesi cyn myn'd adre';
Môr yn berwi, craig yn hollti, Rhaid im' wisgo mwrning Iesu."

Pan droai ei leferydd yn hyglyw clywem ymadroddion mor debyg ag sydd yn bossibl i'r hyn a ganlyn:—"'Rwyt yn ein ceryddu yn galed, ond allan o dy gariad, 'Gwybydd o law Dofydd Dad, nad yw cerydd ond cariad.' Yr ydym ni trwy ein pechodau yn nghyda ein natur halogedig, yn grwgnach yn erbyn dy wialenodiau, ac yn crio arnat i roi llonydd i ni, am beidio'n tormento ni, ond nid wyt Ti byth yn cymmeryd *offense*. 'Does dim byd o jelysi gwageddus y byd yn perthyn i Ti. 'Rwyt Ti'n wastad yn gyflawn, a thrwy hyny yn gallu ymesgusodi. 'Rwyt yn dangos i ni wendidau ein natur trwy wneuthur prawf o honynt weithiau hyd at ddefyn diwetha y rhaff, ac yr ydym yn crynu dan y prawf. Y mae ein brwydrau yn cael eu hysgwyd megys dail yn y dymhestl. Cynnorthwya ni yn y 'storm i deimlo ein bod yn sefyll yn Dy gysgod, ac yn y llif ein bod yn sâff tu fewn i Dy Arch pan yn rhy wan i ymaflyd yn dy fraich."

Yr wyf yn credu teimla y rhai o ddarllenwyr yr ysgrif hon fod y rhan hona o'r weddi, a dweyd y lleiaf, yn wir farddonol, ond sut y mae ei chyssoni â'r rhan ddylynol sydd i mi yn ddirgelwch anesponiadwy :—"Dyro nerth i bawb o deulu dyn, agos a phell ; bydd gyda dy blant yn Calcutta ; ïe, ymwel a Rhoses Moab ; gwersylla'n *rownd* i ni yn y pentre' bychan hwn, y rhai ydym yn byw yn swn berw'r afon. Mae trwst ei thonau yn nghlustiau pob un o honom y nos hon. 'Afon fawr yw afon ange'," &c.

Cofus genyf i mi ofyn i fy nhad un noswaith wedi bod mewn cyfarfod gweddi yn yr ardal, pa un ai Jaci o'r Llidiart neu un arall oedd y gweddiwr goreu, pryd yr atebwyd fi ganddo yn garedig, nad oedd un dyn a allai farnu hyny ond Duw, ac mai nid ar y geiriau oedd ef yn sylwi, ond ar y galon. Bu y dywediad doeth hwna yn achos i'm meddwl plentynaidd ddechreu myfyrio, ac yr wyf yn ei drysori yn fy nghof heddyw megys un o'r pethau sancteiddiolaf a barablwyd yn fy nghlyw gan ei enau cariadus. A chlywais fy chwaer, yn ei diniweidrwydd ieuanc, eithr ysmala, yn dywedyd wrtho dro arall wedi bod mewn cyfarfod gweddi yn un o dai'r cymmydogion, fod hwn a hwn mor sych ag ysglodyn ar ei liniau, ac nad oedd hi yn ei leicio yn debyg i un hen gymmeriad arall ag oedd yn cymmeryd rhan yn y gwasanaeth, a'r hwn oedd yn arfer bloeddio ar dop ei lais, gan ofyn y cwestiwn gwir ddyeithr hwn i'r Bod Mawr ar ddiwedd pob brawddeg, "Wyt Ti'n gwel'd, he!" "Nid swn a chynhwrf geiriau sydd yn gwneuthur y weddi yn dderbyniol i'r glust Anfeidrol, fy merch," meddai fy nhad wrthi ; "cofia Weddi yr Arglwydd, nid oes ynddi yr un gair o *excitement*.

Yr oedd rhyw ledwithdod digrifol yn ei ddewisiad o emynau mewn cyfarfodydd o bwrpasau neillduol. Yr wyf yn sicr fod y diffyg hwn ynddo yn hollol anymwybyddol. Yr oedd cyfarfod o ymostyngiad yn cael ei gynnal yn yr ysgoldy am gyfnewidiad tywydd ar haf gwlyb iawn ; neu, fel ag y dywedwn ni yn y rhanbarth hono o'r wlad, cyfarfod i geisio tywydd sych, ac yr oedd yn dygwydd bod yn gwlawio yn enbyd y noson hono. Galwodd Shon ar Dafydd o'r Llidiart i gymmeryd rhan, ac wedi myned trwy *seremoniau arafwch* aeth Dafydd yn mlaen, ac fe roddodd y pennill hwn allan :—

"Pa'm y caiff bwystfilod rheibus
Dori'r egin mân i lawr ?
Pa'm caiff blodeu peraidd ieuainc
Fethu gan y sychder mawr ?

(A'r gwlaw yn ymdywallt yn aruthrol!)

Arglwydd, tyred â'r cawodydd,
Sy'n cynnyddu'r egin grawn ;
Cawod hyfryd yn y boreu,
Ac un arall y prydnawn."

Ac yn wir, os cafodd pennill erioed ei sylweddoli, cafodd hwn, oblegyd yr oedd y gwlaw yn ymbistyllo.

Yr wyf yn meddwl hefyd fod blaenor y gân wedi myned ar grwydr y noson hono, o herwydd ail-ganwyd ef, do, trydydd a phedwerydd ganwyd y rhan diweddaf o hono. Cofier, etto, mai cwrdd ymostyngiad ar dywydd gwlyb ydoedd. Neillduolwyd Dafydd yn drysorydd yr eglwys, ac yr oedd arian y capel yn gyssegredig iawn yn ei olwg—mor gyssegredig felly, na chaniatau i neb edrych arnynt. Gofynai'r wraig iddo weithiau am newid swllt, ond ymsythai Dafydd gan ddywedyd, "Pegi, fenyw, ymswynwch gablu ag arian y capel!" Ni byddai un amser yn newid dim, ond talu'r pregethwr yn nghyda phob gofynion o'r arian megys ag y cawsent eu derbyn yn y casgliadau—yn ddimneuau, ceiniogau, darnau tair, grot, &c., &c.

TEIMLAD Y BARDD.

Pan oeddwn mewn amwes ar fynwes fy mam,
Mi gredais yn gadarn na chawn I fyth gam;
Myfi oedd y ie'ngaf a'm bron yn ddifrad:
Fel Benjamin oeddwn yn ngolwg fy nhad.

Yn nyddiau fy mebyd ce's hyfryd fwynhad,
Pan oeddwn fel brenin ar aelwyd fy nhad;
Ond buan ehododd y dyddiau i ffwrdd,
Heb un math o obaith caem eilwaith gydgwrdd.

Ce's gynghor mewn ie'nctid, da cofiaf ef, gwn,
'Ochelyd trawsfeddiant trysorau'r byd hwn,
Mai ffiaidd oedd trachwant, er dyfod i ffawd:
Mil gwell f'ai cardota, a byw yn dylawd.

'Rwy'n diolch i'r nefoedd yn gyhoedd bob pryd
Nad oeddwn o'm hie'nctid fel carl am y byd;
'Dwy'n ceisio dim yma ond prin chwareu teg,
Ac aed y bydol-ddyn a'r byd lon'd ei geg.

Er llymed fy lletty, er gwaeled fy ngwisg,
Er na che's fanteision ar nemawr o ddysg,
Er hyny, diolchaf yn nwyfus i'm Naf,
Boddlonrwydd a gefais i'r 'chydig a gaf.

Trwy bwyll ac amynedd, ce's ryfedd fwynhad
Wrth ganfod cwn gwancus f'ai'n frwd am fy mrad—
Rhai fuont yn rhincian eu dannedd cyn hyn,
Ynt wedi diflanu fel niwl yn y glyn.

Mi dreuliais fy nyddiau hyd yma o'r cryd
Yn dawel, heb falais at neb yn y byd;
Os chwennych y coegfalch oddiwrthyf fyn'd 'ffwrdd,
O!'r ymswyn! daw'r amser cawn gydradd gydgwrdd.

I lanw'r esgynlawr daw holl ddynolryw:
'Does unrhyw wahaniaeth mewn arfaeth gan Dduw;
Y diwyd a'r diog gydfedant yn dyn:
Caiff pawb 'nol ei haeddiant o fwyniant pryd hyn.

Gan fod fy hen babell â'i gogwydd i'r glyn:
Boddlonaf i'r dynghed er chwerwed yw hyn,
Yn ngwyneb trawsffurfiad fy nghysur i gyd,
Fod i mi wych adail uwch gwybod y byd.

Un peth wyf yn ddeisyf tra b'wyf yma'n byw,
Cydwybod fwyn, dawel, wrth ddychwel at Dduw;
Hyd eithaf fy neall, tu arall i'r llen,
Rho'f iddo ogoniant a moliant. Amen.

Pennant, Rhydowen. S. T.

GWAITH CENADOL YN MHLITH YR UNDODIAID.

Teimlad cyffredinol yn ein plith yw fod rhy fach o waith ymosodol yn cael ei wneuthur genym trwy'r blynyddoedd—rhy fach o gais i ddwyn y syniadau a broffeswn i sylw y cyhoedd. Yr ydym, felly, yn agored i lawer o gyhuddiadau—nad ydym yn credu yn ngwerth ein proffes, neu gwnelem rywbeth drosti; ein bod wedi cyrhaedd eisoes gyflawnder ein tyfiant—nad oes yn aros i ni un gwaith yn y byd byw hwn, a'n bod wedi ein tynghedu i ddiffoddiant buan. Yr ydym wedi clywed rhywbeth tebyg am lawer o flynyddau; ond rhywfodd, yr ydym o hyd yn fyw, ac yn llusgo yn y blaen yn ddidwrw, ac yn debyg i'r rhai y sonia Gray am danynt:—

"Who keep the noiseless tenor of their way."

"Mewn dystawrwydd, gostyngeiddrwydd, cymmedrolder hoff a hedd,
Yn ffordd dawel cyflwr isel, byth yn cadw hyd y bedd."—*D.D.*

Gwneir ambell i *spurt* genym, a thynwn ychydig sylw; ond ymddangoswn rywfodd yn ddiffygiol mewn dyfalbarhad. Hauwn yr had, ac ymfoddlonwn yn ormodol ar hyny, heb wneuthur fawr ymgais i'w gasglu i'n hysguboriau.

Achlysurwyd y llinellau hyn trwy ddarlleniad o farwgof Mrs. Evans, Maesymeillion, mewn rhifyn diweddar o'r Ymofynydd. Dygir ar gof i ni yno enwau lluaws o ddychweledigion oddiwrth y Bedyddwyr. Gwyddwn am y ffaith o'r blaen; ond ni ddaeth adref i fy meddwl erioed o'r blaen gyda'r fath nerth. Dechreuais ymholi, Pa fodd y bu hyn? Dywedodd y Parch. Thomas Rees, Ll.D., mab y Parch. Josiah Rees, Gellionen (1744—1804), ac wyr i'r Parch. Owen Rees (1717—1768), y gweinidog Annghydffurfiol cyntaf yn Nghwm Aberdar, yn y

flwyddyn 1813, nad oedd, ychydig flynyddau cyn hyny, ond un Undodwr proffesedig—hyny yw, un yn galw ei hun yn Undodwr—yn yr oll o Gymru; ond eu bod bellach yn lluaws. Nid wyf yn gwybod yn iawn pwy oedd mewn golwg ganddo, ai y Dr. Charles Lloyd, ynte y Parch. Thomas Evans. Yr oedd Evans wedi cyhoeddi ei hunan yn Undodwr, o leiaf mor foreu a 1792, trwy ei bregeth ar "Amddiffyniad o Benarglwyddiaeth y Tad." Yr oedd, flynyddau cyn hyny, wedi myned dan y llysenw Priestley bach yn ei ardal ei hunan. Drachefn, ceir fod y Parch. Benjamin Phillips, St. Clears, dyn doniol a dylanwadol iawn yn ei oes, yn dywedyd nad oedd fawr amser er pan oedd efe yr unig un o ddychweledigion yn mhlith yr Undodiaid, ond eu bod, erbyn hyny, yn ddeg mewn nifer (hyny yw, o weinidogion), a'r oll, os wyf yn cofio, yn ddychweledigion oddiwrth y Bedyddwyr.

Pwnc dyddorol yw beth fu'n achos o'r cynhwrf hwn yn ngwersyll y Bedyddwyr, fel ag i beru i nifer mor fawr mewn amser mor fyr i gefnu ar yr enwad. Gwyddom am y ddadl—ond dadl ar fedydd oedd hono—a gymmerodd le tua diwedd y ganrif; y Parch. William Richards o Lynn, a'r Yswain parchus, William Williams, J.P., Aberteifi, un ochr, yn pleidio Bedydd. Yr oedd y ddau, fodd bynag, yn gogwyddo at syniadau rhyddfrydig, ac yn rhywfath o Undodiaid.

O bossibl mai Benjamin Phillips oedd y dylanwad mwyaf i ddwyn y cyfnewidiad oddiamgylch; efe oedd y cyntaf, ysgub y blaenffrwyth, a thebyg mai efe oedd y mwyaf, gan mai Bedyddwyr (ond Undodaidd) y parhaodd yr amlafrif o honynt hyd y diwedd. Cymmerodd Phillips amryw deithiau cenadol ar draws y wlad, a sefydlodd amryw achosion bychain. Bychain a gweinion fuont, ac wedi ychydig amser, cawn iddynt, fwyaf o honynt, ddihoeni a marw. Oni allwn ni ddysgu gwers oddiwrth hanes yr eglwysi hyn? P'am y mae hyn wedi bod? Yr oedd gan y dychweledigion, yn lleyg a llen, gydwybod gref; yr oedd ganddynt asgwrn cefn moesol, ac argyhoeddiadau dyfnion, fel yr oeddynt yn barod i farw drostynt. Ond heneiddiasant hwy, a buont feirw; a'r plant a ddaethant ar eu hol, ni feddent hwy argyhoeddiadau eu rhieni, felly hwy a ymgollwyd yn y lluaws, neu fel Demas, hwy a'u gadawsant, gan garu y byd presennol. Y mae enwau hyd y nod y gweinidogion, fwyaf o honynt, wedi syrthio o'n gafael. Trueni hyn, a dylem wneuthur cais i'w hachub rhag difancoll.

Bydd yn newydd i lawer i glywed fod rhai ymdrechion pwysig wedi eu gwneuthur genym yn y gorphenol ar y maes cenadol—fynychaf dan nawdd y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain. Yn 1811, gwnaeth un Mr. Lyons daith trwy Ddeheudir Cymru; Richard Wright yn 1816; a'r Parch. John Davies, Alltyplaca, yn 1875. Wele ychydig o hanes taith Mr. Lyons allan o'r *Monthly Repository*, 1811, *page* 683-92:—

Anfantais fawr i Sais unieithog yw gorfod myned ar daith genadol o'r fath, ac etto deffroid llawer o sylw. Os bydd dyn yn meddu ar gymhwysderau i'r gwaith, fe fyn gyrhaedd ei amcan yn rhywfodd. Rhaid fod *pluck* diderfyn ynddo, ac adnoddau ddigon fel ag i orchfygu

anhawsderau, ac yn enwedig iechyd a nerth corfforol, a phen wedi ei scriwio yn iawn ar y *top*. Teithiodd Mr. Lyons 825 o filldiroedd, bu oddicartref 50 o ddyddiau, a phregethodd 26 o weithiau.

Mehefin 11, 1811, cychwynodd o Fryste i Gaerdydd, ac yno yr oedd yn dysgwyl Mr. Evan Llwyd i ddyfod i gyfarfod ag ef, a'i hebrwng ar ymweliad â rhai cynnulleidfaoedd bychain yn y gymmydogaeth. Cafodd Mr. Lyons ei siomi—ni ddaeth Mr. Llwyd. Tebyg nad oedd Mr. Llwyd wedi derbyn hyspysrwydd ar y mater. Ni chafodd Mr. Lyons ond un Undodwr yn Nghaerdydd, a hwnw yn hen wr heb fod ganddo ond ychydig iawn o Saesneg. Syniad isel ddarfu i Mr. Lyons ffurfio am Gaerdydd. Yr oedd yno lawer o fywyd masnachol, ond ychydig o yspryd ymchwiliad mewn perthynas i faterion crefyddol, ac yr oedd sefyllfa foesol y trigolion, fel y clywai, yn is nag mewn un dref o gyffelyb faint yn y Dywysogaeth.

Hwyr dranoeth, cymmerodd y *coach* i Gastellnedd, gan dybied mai gwell fyddai iddo dalu ymweliad â Mr. Davis, y gweinidog Undodaidd yno, a mab D.D., Castell Hywel, er ymgynghori sut y gallai yn oreu drefnu ei amser a'i waith. Yr oedd yn 12 canol nos pan gyrhaeddodd Gastellnedd, ac felly, tybiodd mai gwell oedd cysgu yn y dafarn. Dranoeth, dydd Iau, aeth at Mr. D., yr hwn a'i derbyniodd gyda serchogrwydd brawd. Dywedodd Mr. D. nad oedd modd cael cynnulleidfa cyn dydd Sul. Gan hyny, arosodd Mr. Lyons lle'r oedd hyd ddydd Sadwrn. Ysgrifenwyd yn y cyfamser at weinidogion amryw gynnulleidfaoedd. Ar y Sadwrn, aeth ar geffyl i Goedycymmer, lle y rhoddodd y Parch. Thomas Davies dderbyniad gwresog iddo; ac ar y Sul (16eg), pregethodd i gynnulleidfa luosog iawn o wahanol enwadau. Aeth y gweinidog trwy y rhanau defosiynol mewn iaith ddealladwy i'r gwyddfodolion. Esponiwyd neges Mr. Lyons, ac ymddangosai pawb yn falch i'w weled. Gwahoddwyd ef i Ferthyr yn y prydnawn, a phregethodd yn nghapel yr Annybynwyr [Ynysgau?], ac yn yr hwyr am 7, pregethodd yn nhy Mr. Rhys, gweinidog Bedyddwyr Undodaidd mewn pentref cyfagos. Dywed fod Mr. Evans, gweinidog Calfinaidd, wedi myned gydag ef yno. Credwn mai *Jenkin* Rees oedd y cyntaf, a'i fod yn byw yn rhywle yn Merthyr, ac mai Thomas Evans, Ynysgau, oedd y llall. Treuliodd dydd Llun gyda Mr. Davies ar y Cefn, a dydd Mawrth, marchogodd i Aberdar, lle y pregethodd am un ar gloch i gynnulleidfa luosog o wrandawyr a wrandawent yn astud ar ei genadwri. Desgrifia'r gynnulleidfa fel un dra chymmysg, rhai yn Undodiaid, rhai yn Ariaid, ac ychydig yn Drindodiaid. Dywed fod y gweinidog, y Parch. Thomas Evans, yn ddiweddar wedi cyhoeddi llyfr emynau, oll o'i waith ei hunan. Dydd Mercher, dychwelodd i Gastellnedd, lle yr oedd y Parch. Benjamin Phillips, ac amryw weinidogion ereill, yn cwrdd ag ef—wedi dyfod yn nghyd ar gyfer y cyfarfod blynyddol. Pregethodd Mr. Phillips yn yr hwyr yn nghapel Mr. Davis; ei destyn, Actau xxviii. 22—yn y Gymraeg, wrth gwrs, fel nad oedd Mr. Lyons yn deall dim. Canmolai y gwrandawyr y pregethwr yn fawr, a gwnaeth ei ymddangosiad yn traddodi argraff ffafriol ar y Sais.

Dydd Iau, yn yr un capel, dechreuwyd gan y Parch. Evan Llwyd, a phregethodd y Parch. John James o Geredigion yn gyntaf, a'r Parch. T. Davies, Cefncoed, ar ei ol. Wedi hyny, ymneillduwyd i'r ysgoldy, lle triniwyd busnes y gymdeithas. Yr oedd Edward Williams, yr hen Iolo, yn bresennol. Desgrifir ef fel dyn o wybodaeth eang, o foes boneddigaidd, rhyddfrydigrwydd mawr, a sel hynod dros ledaeniad crefydd resymol. Yr oedd, ar yr adeg hon, ar fedr cyhoeddi cyfrol o emynau. Cyhoeddwyd hi yn 1812. Treuliwyd y dydd mewn yspryd cydgordiol a serch hyfryd.

Dydd Sadwrn, yr 22ain, mae Mr. Lyons yn ffarwelio â Mr. Davis, yr hwn a ddesgrifir ganddo fel Undodwr selog, ysgolhaig rhagorol, a phregethwr da. Bach oedd y gynnulleidfa. Oddiyma mae yn cyrchu i Abertawe, ac yn gosod i fyny yn nhy y Parch. Job David, diweddar o Taunton. Ar y 23ain, mae yn pregethu yn y capel. Mr. Howel yw y gweinidog, dyn yn mhell yn mlaen mewn oedran. Yn y prydnawn a'r hwyr, mae yn pregethu yn nghapel y Bedyddwyr Undodaidd, lle'r oedd Mr. Jenkins yn gweinidogaethu, a lle'r oedd Mr. Job David yn pregethu yn achlysurol. Treuliodd y Llun gyda Mr. Howel. Y 24ain, mae Mr. Lyons ar ei daith i Gellionen, lle y daeth yn nghyd gynnulleidfa barchus mewn rhif ac mewn dealldwriaeth. Y gweinidog oedd David Oliver. Mae Mr. Lyons yn pregethu, a Mr. Davis, Castellnedd, yn cyfieithu er budd y gynnulleidfa. Yr oedd Mr. Oliver yn gwneuthur cryn lawer o waith cenadol. Mae yn treulio'r 26ain gyda Mrs. Rees, gweddw y Parch. Josiah Rees. Y 27ain, dan arweiniad Mr. Phillips, mae'n myned i Landyfân, lle'r oedd Mr. Griffiths (Jac Ruffydd) yn weinidog. Bedyddiwr Undodaidd oedd yntau, heb fanteision addysg, ond yn meddu synwyr da, yspryd rhagorol, duwioldeb diamheuol, a sel wresog dros ledaeniad y ffydd. Pregethodd Mr. Lyons, a chyfieithiodd Mr. Phillips. Yr 28ain, dydd Gwener, mae yn myned i Lanelli. Mae meddyg o'r enw Cook yn gwneuthur cais am le iddo bregethu, ond yn gwbl ofer. O'r diwedd, penderfynir cwrdd mewn ystafell yn rhywle, a gyrir y *town crier* allan i hyspysu amser y gwasanaeth. Llanwyd y lle yn annghysurus o lawn. Pregethwyd ar bwysigrwydd gwirionedd crefyddol. Wedi hyny, daeth amryw at Mr. Phillips yn ceisio ganddo drefnu cyfarfodydd yno, y gwnaent hwy ofalu am le priodol.

Y 29ain, yn Llangyndeyrn, gweinidog—y Parch. W. Thomas, awdwr Hanes Bywyd Michael Serfetus. Daeth yma yn rhy hwyr i bregethu. Cafodd roesaw mawr gan un John Davis. Dranoeth, dydd Sul, mae yn pregethu yn nghapel Heol Awst, Caerfyrddin. Dywed mai Calfin selog oedd y gweinidog, Mr. Peter. Yr oedd yno gynnulleidfa fawr, a chafodd wrandawiad astud. Yn yr hwyr, aeth yn ol i Langyndeyrn, ac amryw gyfeillion gydag ef. Daeth tyrfa fawr yn nghyd. Dywed am Mr. W. Thomas mai Bedyddiwr Calfinaidd oedd hyd yn ddiweddar, ei fod yn awr yn Undodydd selog. Mae yn dysgwyl pethau mawrion oddiwrtho. Yr oedd yn 12 o'r nos pan ddychwelodd yn flin iawn i Gaerfyrddin, ond yn gwbl argyhoeddedig nad oedd gwaith y dydd wedi bod yn ofer. Pregethodd dranoeth

mewn capel Bedyddwyr Ariaidd (?) lle'r oedd un Davis yn weinidog. Dydd Mawrth, Gorphenaf 2, aeth i Templeton, ond o herwydd rhyw gamsyniad, methodd yn ei amcan. Yr oedd pawb gyda'u gwaith. Aeth yntau yn ei flaen i Tenby, ond methodd cael Undodiaid yno. Dranoeth, aeth i Pembroke, ond etto i ddim pwrpas. Aeth oddiyno i Haverfordwest, ac etto yn aflwyddiannus. Daeth yn ol i Gaerfyrddin erbyn nos Iau.

Dydd Sadwrn, aeth Mr. Phillips ac yntau i Rydyparc. Cawsant dderbyniad calonog gan Mr. (David ?) Phillips, y gweinidog. Pregethodd Dydd Sul yn y capel i gynnulleidfa dda, Mr. Phillips yn cyfieithu. Yn y prydnawn, pregethodd yn yr awyr agored, yn Cwm-felin-fach, gan fod tŷ Mr. Rees Davies yn rhy fach i'r gynnulleidfa oedd wedi dyfod yn nghyd. Pregethodd Mr. Phillips ar yr un pwnc yn y Gymraeg. Wedi'r gwasanaeth, treuliwyd llawer o amser yn ymddyddan â'r gwrandawyr. Pymtheg mlynedd cyn hyn, nid oedd dim Undodiaid yn yr ardal. Ffermwr oedd Mr. Phillips, y gweinidog, gwanaidd ei iechyd ; ac felly, cynnorthwyid ef yn fynych gan Mr. Phillips, St. Clears, a Mr. Thomas, Llangyndeyrn.

Dydd Llun, yr 8fed, pregethodd yn Panteg, lle'r oedd Mr. (Benjamin ?) Evans yn weinidog. Aeth i Gastell Newydd, a phregethodd i gynnulleidfa fechan ar ddyndod Crist. Nid oedd yno ddim Undodiaid. Oddiyma aeth i Aberteifi, lle'r oedd tri neu bedwar o Undodiaid. Pregethodd mewn tŷ segur i gynnulleidfa wedi ei dwyn yn nghyd gyda help y *town crier*.

Aeth oddiyma i Gastell Newydd, ac i Landyssul, lle y cafodd gynnulleidfa fawr, a phregethodd Mr. Davis, Castellnedd, ar ei ol yn y Gymraeg. Nid oedd llawer o Undodiaid yn y pentref. Yr oedd Mr. D. yn dygwydd bod ar ymweliad â'i dad, yr hen wr, D.D., Castell Hywel. Ar ol y gwasanaeth daeth amryw o'r gwrandawyr yn nghyd, a chafwyd tipyn o ddadleu gwresog. Talodd Mr. Lyons ymweliad â Mr. D., Castell Hywel. Dydd Mawrth, y 12fed, pregethodd yn y Llwyn i gynnulleidfa fawr, Mr. Davis yn cyfieithu.

Y 13eg, arosodd yn Nghastell Hywel, a dydd Sul aeth Mr. Phillips ac yntau ar bob o geffyl i Gapelgroes, lle'r oedd Mr. James yn weinidog. Yma cafodd y gynnulleidfa fwyaf o Undodiaid oedd wedi weled hyd yma yn Nghymru. Pregethodd Mr. Jones, o Halifax, iddynt yn y Gymraeg ar yr Iawn, a Mr. Lyons ar effeithiau ymarferol egwyddorion Undodaidd ; a rhoddodd Mr. Phillips grynodeb o'r bregeth Saesneg yn y Gymraeg. Aeth Mr. Lyons oddiyno i Lloyd Jack, lle y treuliodd y nos yn nhy Mr. David Jenkin Rees, un o ragorolion y ddaear. Pregethodd yn ei dŷ am naw boreu dranoeth i gynnulleidfa oedd yn llanw pob cŵr, Mr. James yn cyfieithu. Yn y prydnawn ymadawodd Mr. Phillips, yr hwn oedd wedi cadw cwmni iddo dros y rhan fwyaf o'i daith genadol. Dyry Mr. Lyons air uchel iawn am Mr. James, fel un yn meddu ar gymhwysderau gwerthfawr at waith y weinidogaeth. Cyfeiria at ei lyfr ar yr athrawiaeth o haeddiant. Dydd Mawrth mae Mr. Lyons yn cymmeryd y *coach* yn Aberystwyth am Chester ; ac felly, yn terfynu ei ymweliad â Chymru. Tybiai nad oedd y Cymry

ddim mor hyddysg yn manylion y gwahanol gangenau o'r ddadl dduwinyddol ag oedd yr Ysgotiaid. Etto, dywed fod Undodiaeth wedi gwneuthur cynnydd dirfawr yn ystod y deg neu'r pymtheg mlynedd blaenorol yn Nghymru.

14 *Mehefin*, 1894. R. J. J.

PANTDEFAID—GWASANAETH YMADAWOL.

Yr oedd y gwasanaeth arferol yn y lle uchod ar brydnawn Sul, Mai y 27ain, yn appelio at deimladau y gwyddfodolion mewn modd neillduol, gan mai ar yr achlysur hwnw y darfu i'r hybarch weinidog, y Parch. Thomas Thomas draddodi ei bregeth ymadawol. Mae Mr. Thomas wedi gweinidogaethu yn Mhantdefaid oddiar y flwyddyn 1847. Cymmerodd ofal Capelygroes yn ychwanegol ryw ddeg mlynedd yn ddiweddarach, ar farwolaeth ei ewythr—y Parch. Rees Davies. Yr unig enghraifft a gofiwn o weinidog a dreuliodd dymhor hirach yn ei wasanaeth yn yr un eglwys yw yr enwog Ddafis o Gastellhywel, yr hwn a ymddiswyddodd yn Llwynrhydowen yn y flwyddyn 1821, ar ol bod yno am un-ar-ddeg-a-deugain o flynyddau. Ar wahan oddiwrth ei hyd, mae gweinidogaeth Mr. Thomas wedi bod, mewn ystyron ereill, yn un neillduol yn hanes yr Undodiaid yn Nghymru. Mae wedi dal safle blaenllaw yn ein heglwysi am ddeugain mlynedd, ac wedi cael ei gydnabod fel un o'n prif bregethwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus, lle yr oedd ei allu ymresymiadol, ei addysg sylweddol, a'i hyawdledd dirodres, bob amser yn tynu sylw neillduol. Darfu i'w lwyddiant mawr hefyd, fel ysgolfeistr, ychwanegu at ei enwogrwydd ac estyn ei ddylanwad yn mhell tu hwnt i derfynau ei gyfundeb ei hun. Golyga ei enciliad o faes cyhoeddus y weinidogaeth fod ein heglwysi wedi colli gwasanaeth un o'n gweinidogion mwyaf pwysig a dylanwadol; ond gwnaeth Mr. Thomas yn amlwg yn ei bregeth y byddai ei oreu etto gyda phob parodrwydd at wasanaeth yr achos, dros yr hwn y mae efe wedi gweithio mor alluog a ffyddlon yn y gorphenol. Yr oedd torf fawr wedi ymgynnull i wrando ei bregeth ymadawol. Yn ystod y bregeth, neu anerchiad fel y dewisai efe ei galw, yr oedd arafwch y traddodiad a thynerwch y llais ar rai adegau yn dangos mor boenus oedd yr ymdrech yr elai trwyddi wrth ddryllio y cyssylltiadau hen a thyner a'u rhwyment wrth ei bobl, a gwelid yn amlwg fod rhan fawr o'r gynnulleidfa yn llafurio dan ddwys deimladau.

Dechreuodd Mr. Thomas trwy ddweyd ei fod yn ddiolchgar iawn am bresennoldeb y fath nifer o gyfeillion nad oeddent yn arferol o addoli yn y lle, y rhai oeddent wedi dyfod i ddangos eu cydymdeimlad mewn cyfwng oedd yn llawer mwy anhawdd i'w gyfarfod nag oedd efe wedi meddwl erioed. Yr oedd wedi cael ei orfodi gan angenrheidrwydd anorfod i gymmeryd y cam hwn, o herwydd gwendid iechyd a'r llesgedd sydd yn dyfod yn naturiol gyda threigliad hir flynyddau. Er ei fod yn rhoddi i fyny y weinidogaeth reolaidd, etto, gobeithiai, yn ystod y

tymhor oedd heb ei dreulio, wneyd yr hyn a allai dros yr achos oedd yn anwyl iddynt i gyd. Gallasai fod yn alluog i wneyd *mwy* mewn rhai cyfeiriadau, gan fod i'r seddau rai manteision nad oedd y pwlpud yn feddiannu.

Yr oedd yn naturiol i bawb ar rai adegau edrych yn ol. Agwedd feddyliol hen bobl fel efe oedd canolbwyntio braidd bob amser eu meddyliau ar y gorphenol, gan fod eu golwg i'r dyfodol y tu fewn i derfynau mor gyfyngedig. Mewn cydffurfiad â'r duedd hona, dymunai ar yr achlysur hwnw wneyd adolygiad byr ar ei yrfa fel gweinidog. Nid oedd ei fordaith bob amser wedi bod gyda gwyntoedd ffafriol ac ar ddyfroedd tawel. Yr oedd wedi gweled y llanw yn dyfod i fewn a phob peth dymunol a llwyddiannus yn ei gol, ac wedi hyny y trai anocheladwy yn cario gydag ef y teimlad poenus o siomedigaeth, ac hyd y nod o anobaith. Yr oedd yn ddyn ieuanc pan y cymmerodd ofal yr eglwys hono saith-a-deugain o flynyddau yn ol. Yr oedd hono yn yspaid hirfaith i edrych yn mlaen ati; ond pan y mae wedi pasio heibio, ymddengys fel mai y ddoe oedd, pan y darfu iddo ef, y tu fewn i'r muriau hyny, gyssegru ei hun i waith ei fywyd. O gant a-deuddeg o aelodau a arwyddent ei alwad, dim ond tri oedd yn fyw yn awr. Pan y cofiai am y ffyddloniaid oeddent yn gefnogaeth i'w weinidogaeth foreu, eu hymlyniad a'u hunan-aberth ar adeg pan y costiai fwy i fod yn Undodwr nag yn awr, nis gallai beidio taflu golwg hoff, hiraethlawn, i'r gorphenol, a galw i'w gof eiriau tyner y proffwyd—"Eich tadau, pa le y maent hwy? a'r proffwydi, a ydynt hwy byw byth?" Yr oedd yn ffaith, eithaf tebyg adnabyddus ond i ychydig, fod yn agos i bum' cant wedi eu claddu yn y fynwent y tu allan i'r capel oddiar y dechreuodd efe ei weinidogaeth, ac yn angladdau y rhai gan mwyaf yr oedd efe wedi cymmeryd rhan. Crybwyllai hyny er mwyn argraffu ar eu calonau eu cyfrifoldeb yn ngwyneb y ffaith fod dull y byd hwn yn myned heibio, ac yn ngorymdaith ddifrifol yr oesau fod cenedlaethau yn codi i syrthio drachefn. Yr oedd llwch y fynwent hono yn gyssegredig iddo ef yn gystal ag iddynt hwy, gan adgofion anwyl am dadau a mamau, brodyr a chwiorydd, plant ieuainc wedi eu tori ymaith yn mlagur eu haddewid—i gyd wedi diflanu y tu hwnt i'r llen, ac wedi gadael lle yn wag na lenwir byth mwy ar y ddaear hon.

Oddiar yr amser y safodd ef i fyny gyntaf yn y man hwnw fel athraw crefydd, yr oedd cyfnewidiadau mawrion a phwysig wedi cymmeryd lle yn yr eglwys a thuallan iddi, mewn arferion cymdeithasol, ac mewn syniadau gwleidyddol a duwinyddol. Yr oedd ef ei hun wedi myned dan gyfnewidiadau radicalaidd yn ei olygiadau, yn agwedd ei feddwl tuag at dduwinyddiaeth, ac hyd y nod yn nodwedd ac amcan ei weinidogaeth. Pan y dechreuodd ef bregethu, materion athrawiaethol oedd yn cyfansoddi sylwedd ei bregethau. Yr oedd ef wedi cael ei ddwyn i fyny yn awyrgylch Undodiaeth athrawiaethol. Y tadau, at y rhai yr edrychai ef i fyny am ysprydoliaeth ei flynyddoedd boreu, oeddynt esiamplau byw o'r ysprydoliaeth dadleuol. Oddiar hyny, yr oedd ei safle wedi newid mewn cydweddiad ag yspryd yr oes. Iddo ef yn awr, bywyd oedd yr elfen holl-bwysig; yr oedd credo, athrawiaeth,

a dadleuaeth dduwinyddol yn cymmeryd lle is-raddol, a'r peth mawr uwchlaw pobpeth oedd carictor. Lle bynag y cawsai ef y cynnyrch hwnw, pa un ai mewn Mohammedan, Budhist, neu Gristion, yno yr oedd blaenffrwyth y ddynoliaeth berffaith, at yr hon mae yr holl greadigaeth yn ymsymmud.

Gyda golwg ar y Beibl, meddyliai ef unwaith ei fod yn meddu ar gymmeriad goruwch-ddynol, gydag awdurdod nas gellid ei wrthwynebu, ac yn hawlio fel "y gair a'r dystiolaeth" i fod yn appel ddiweddaf mewn pob pwnc o amheuaeth a dadl. Nis gellid dal yr olwg yna yn y dyddiau hyn. Yr oedd gwyddor a beirniadaeth wedi dinystrio yn ddiobaith anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau, ac wedi adferu i'n dwylaw Feibl, a fydd yn ffynnonell ddihyspydd ysprydoliaeth foesol. Un angen mawr ein hamser oedd astudio crefydd yn yr yspryd gwyddonol; yr angen arall, hollol mor bwysig, oedd astudio gwyddor yn yr yspryd crefyddol. Prif gynnyrch ei brofiad ef, fel gweinidog, oedd gosod pwys ar y gwirioneddau mawrion hyny—Tadoldeb Duw a brawdoldeb dyn, a'r dyledswyddau ydynt yn deilliaw o'r perthynasau hyny. Y prif bynciau hyn oeddynt yn cyfansoddi sylwedd Cristionogaeth, ac ynddynt hwy yr oedd "yr addewid am y bywyd sydd yr awr hon, a'r hwn a fydd."

Dygodd Mr. Thomas annerchiad effeithiol iawn i derfyniad drwy gymhell ei bobl, mewn modd difrifol, i ymgeisio am unfrydedd ymarferol yn etholiad ei olynydd. Deallwn fod yr un bregeth wedi ei thraddodi yn y boreu yn Nghapelgroes. Mae Mr. Thomas yn ymneillduo oddiwrth ei waith cyhoeddus, gyda pharch, diolchgarwch, a dymuniadau goreu nifer luosog ydynt wedi derbyn lles mor fawr oddiwrth ei wasanaeth fel ysgolfeistr, ac fel gweinidog.

W. J. *(O'r Inquirer).*

BEDDARGRAFF IOLO MORGANWG.

Yn Eisteddfod Freninol Gwent a Dyfed a gynnaliwyd yn Nghaerdydd, Awst 20, 21, a 22, 1834, rhoddwyd gwobr am yr englyn goreu i'w osod ar feddfaen Iolo Morganwg. Wele y buddugol :—

Dyma'r gro, y to, a'r tir,—mae'n Pencerdd,
Mwy'n pyncio ni chlywir!
Am duedd i goledd gwir,
Ail i Iolo ni welir.

Tra huan diddan, tra dydd,—troell araul
Tra lloerwen ysplenydd;
A Iolo heb ei eilydd,
Ei gofiant da fwyniant fydd.—Gwilym Morganwg.

D.S.—Am yr englyn olaf y rhoddwyd y wobr.—*Greal y Bedyddwyr*, 1833, t. 338.

CYMMANFA GANU ABERTAWE.

Fel hyn y dywed gohebydd y *Faner* am yr wyl gerddorol hon:—

Dydd Llun, Mehefin 4ydd, oedd dydd mawr Undodiaid Deheudir Cymru; oblegyd arno cynnaliwyd gwyl fawr gerddorol yn yr Albert Hall, Abertawe. Yr oedd dau drên neillduol yn cychwyn o Sir Aberteifi —un o Landyssul, ar llall o Lanbedr. Bydd boreu dydd Llun mewn coffadwriaeth drwy Ddeheudir Cymru; oblegyd ar y dydd hwnw, torodd ystorm annghyffredin allan o fellt, taranau a gwlaw. Dechreuodd y gwlaw ddyfod i lawr yn gawodydd mawrion yn foreu, fel yr oedd yn resyn annghyffredin fod dynion, merched, a phlant, yn cael eu gwlychu hyd y croen cyn cyrhaedd y gorsafoedd. Erbyn cyrhaedd Abertawe, yr oedd wedi tecau, a threuliwyd y dydd yn dda, ac ystyried fod llawer mewn dillad gwlybion. Y corau a gymmerasant ran yn y gweithrediadau oeddynt:—Llandyssul, Pantydefaid, Llwynrhydowen, Capel y Fadfa, Sychnant, Cwrtnewydd, Capelygroes, Cribin, Rhydygwin, Ciliau Aeron, Alltyplaca, Llanbedr, Caeronen, Caerfyrddin, Abertawe, Gellionen, Wig, Drefnewydd, Cefncoedycymmer, Dowlais, Merthyr Tydfil, Trecynon, Aberdar, Cwmbach, gwahanol adranau Cwm Rhondda, a Phontypridd. Yr oedd nifer mawr o weinidogion yn bresennol —rhy faith i'w henwi. Yr oedd yr holl o fyfyrwyr Undodaidd Caerfyrddin yn bresennol. Ar ol canu emyn, gweddiodd y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Traddododd y Parch. W. James, llywydd y boreu, araeth hyawdl, yn yr hon y nododd allan bwysigrwydd a gwerthfawrogrwydd caniadaeth y cyssegr. Maentumiai, os na fyddai canu da mewn cynnulleidfa, nas gellid dysgwyl i'r ad loliad fod mewn gwedd lewyrchus. Er i'r pregethwr fod mor hyawdl a Henry Ward Beecher, etto, yr oedd yn rhaid iddo gael ei ategu gan ganiadaeth dda yn y gwahanol oedfaon.

Yna dechreuodd Mr. D. Eiddil Jones, Cefncoedycymmer, yr arweinydd, ar ei waith. Hyd yn hyn, yr oedd dynion yn parhau i ddylifo i fewn, nes yr oedd miloedd yn llanw yr adeilad eang. Ar ol i Mr. Jones geisio gan aelodau y cor ganu yn eu dull goreu, dechreuwyd ar waith y dydd o ddifrif. Canwyd y tonau canlynol:—Hermas, Abends, Sant Nicholas, Hendre, Arabia, Capel-y-Groes, Nazareth, Rhyl, Tanymarian, Bryniau Canaan, Crugybar, a'r anthem, "Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel," (J. Thomas). Yna terfynwyd trwy weddi gan y Parch. W. J. Davies, Llandyssul.

Yn y prydnawn, llywyddodd Mr. G. Carslake Thompson, Caerdydd, yn ddeheuig iawn; a darfu i r Parch. A. N. Blatchford, Bryste, fel cynnrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, draddodi araeth yn llawn o arabedd a choethder. Mawr ganmolai y ganiadaeth yn ystod y dydd. Tybiai na ddymunai glywed gwell canu yn y nefoedd nag a glywodd yn nghymmanfaoedd Cymru. Priodolai lwyddiant y Wesleyaid yn Devon a Cornwall i'w caniadaeth gyssegredig, a hawliai efe berthynas a Chymru. Derbyniwyd ei araeth gyda

banllefau o gymmeradwyaeth; a phasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch iddo, ar gynnygiad Dr. Griffiths, ac eiliad y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

Canodd y côr y tonau canlynol:—Munich, Diadem, Abends, Gaerwen, Lenox, Alexander, Nashville, Wells, Nazareth, Ardudwy, Bryniau Canaan, Crugybar, a'r anthem, "Teyrnasoedd y ddaear."

Yn ystod y dydd canodd Miss Davies, Treorci, ddwy unawd, "*O thou that tellest*," ac "*He was despised*." Medda hon lais ardderchog, yn neillduol yn y *low register*. Yr oedd ei nodau yn gadarn dros ben, a chanai gyda llawer o deimlad. Canodd Mr. George Thomas, Cwrtnewydd, yr unawd "Teyrnasoedd y ddaear," mewn arddull ardderchog. Dybenai y brawddegau yn brydlawn, ac yr oedd ei waith drwyddo yn dda. Chwareuodd y brawd ieuanc, Mr. R. Howells, Aberdar, unawd ar yr organ, mewn modd meistrolgar iawn. Yr ydym yn hen gynnefin ag ef fel cyfeilydd. Cyfeilydd penigamp ydyw. Am y côr, canodd y gwahanol donau yn hynod dda. Yr oedd rhai o'r tonau yn cael eu canu gyda mwy o deimlad na'u gilydd; ond gofyna y gwirionedd ei hun oddiwrthym air o ganmoliaeth i'r holl gor. Yr oedd y *sopranos* yn dda odiaeth; y *contraltos* yn rhagori o lawer ar yr hyn a gawsom dair blynedd yn ol; y *bass* yn fwy cadarn a chartrefol; a'r *tenors* yn swynol iawn. Am yr arweinydd, teifl y fath egni i'w waith, fel y mae ei enaid i gyd yn y gan; ac fel hyn, ennyna frwdfrydedd yn y cantorion. Ac wrth gwrs, gyda phrofiad helaethach, o flwyddyn i flwyddyn, ennilla yntau ychwaneg o nerth. Wrth derfynu dymunwn roddi gair o ganmoliaeth i bawb a wasanaethasant yn ystod y dydd. Bu boneddigesau Undodaidd Abertawe yn garedig iawn wrth y byrddau; a theilynga Mrs Hathren Davies a Mrs. W. Hughes air arbenig oddiwrthym am eu llafur gyda'r bwyd. Terfynwyd y Gymmanfa hon trwy dalu diolchgarwch i'r ddau lywydd, a gweddi gan y Parch. J. Hathren Davies, ysgrifenydd y pwyllgor.

———

Dyma yr hyn a ddywed cyfaill o gerddor am y Gymmanfa:—

Dyma yr ail Gymmanfa Ganu Undebol Undodiaid Deheudir Cymru wedi cael ei rhifo gyda'r pethau a fu. Hir ddysgwyliwyd am dani gan hen ac ieuainc; ac fel mae olwyn amser yn dirwyn pobpeth i ben, dyma y wledd ganu drosodd. Gofyna rhai os ydyw yn talu ei ffordd. Ydyw, yn sicr, ar ei chanfed i'r dosparth o ddynion sydd a'u zel a'u cariad at, ac yn foddlon i roddi eu hysgwyddau wrth y gwaith da; ond i'r rhai sydd yn dyfod i ddangos eu hunain, ac i ffeindio beiau, nid yw yn talu dim. Y mae y Gymmanfa yn llwyddiant perffaith, yn tynu dyn at ddyn, ac yn hyfrydwch meddwl gweled cynnifer o wynebau hawddgar yn mwynhau eu hunain ar ddydd y wledd. Dyna Mr. Blatchford o Friste, oni buasai y Gymmanfa, fe ddichon, na chawsem y fraint byth o'i weled a'i glywed ef, ac amryw ereill. Nid oes eisieu dweyd wrth y sawl oedd yno fod y canu wedi dyrchafu yn uchel o'r hyn oedd dair blynedd yn ol; a gellir cael gwelliant mawr etto gydag undeb a gweithgarwch. Yr oedd y cydbwysiad yn dda iawn, yr *altos*,

sopranos, a'r *bass*, yn canu yn rhagorol. Dichon fod y boreu garw a gawsom i gychwyn wedi effeithio, i raddau, ar leisiau y *tenors*; ond, ar y cyfan, yr oedd pob part yn cael ei feistroli yn gampus—wedi dysgu y seiniau a'r geiriau'n rhagorol; ac, 'rwy'n credu, Mr. Gol., yn ddystaw bach rhyngom ni'n dau, ei fod yn *drick* i gael gwahanol gynnulleidfaoedd fel ag oeddem ni yn Abertawe i'n curo! "Tipyn bach o frags," mor barod y daw allan. Yr hyn garwn ni yn fawr yw, i'n gweinidogion roddi dwy neu dair o'r hymnau ag ydym wedi bod yn eu canu yn ein Cymmanfaoedd y blynyddau diweddaf, allan bob Sabboth fel ag y gellir cadw y tonau mewn côf. Heb hyn, fe â llawer o'r llafur yn ofer. 'Nawr, gydgantorion, os arbed Duw ni, gadewch i ni weled faint o welliant ellir wneyd ar y canu yn y tair blynedd nesaf. 'Rwy'n hyderu nad yw y Gymmanfa i ddiffodd ar hynyma.

M.S.

Gadewch i mi draethu gair ar y Gymmanfa uchod, er nad yw fy meddwl yn rhyw glir iawn ar y pwnc. Charwn ni ddim beio lle nad oedd bai, na chanmol lle nad oedd teilyngdod. Diau fod gerwindeb enbyd yr hin yn y boreu wedi rhwystro llawer o'r cantorion i roddi eu presennoldeb a'u cynnorthwy yn y Gymmanfa, heb hyn byddai'n rhaid priodoli eu habsenoldeb i glaiarineb a difaterwch, ond y syndod yw fod cynnifer wedi dod, ac y maent yn deilwng o ganmoliaeth uchel. Ac ystyried pob peth, credaf fod y Gymmanfa wedi bod yn llwyddiant mawr, ac etto, nid yn gymmaint o lwyddiant ag y gallasai fod, ac y dylasai fod, ac hefyd y buasai pe b'ai pawb o'n cantorion wedi parotoi fel y gwnaeth rhai, a phe ba'i pawb wedi cofio mai eu prif neges i Abertawe y diwrnod hwnw oedd gwneyd y Gymmanfa Gerddorol yn llwyddiant a pherffeithio caniadaeth y cyssegr, ac nid myned i rodiana: pe ba'i pawb o honynt wedi bod mor ymdrechgar a chydwybodol a'u harweinydd medrus, ac wedi taflu eu hunain i mewn i'r gwaith fel y gwnaeth ef, ac ychydig ereill gydag ef, byddai'r canu'n fendigedig tuhwnt i ddysgrifiad, os nad oedd felly mewn gwirionedd 'nawr. Cymmanfa ardderchog oedd,—ni chefais y fath wledd yn fy mywyd. *Well done, boys*, ewch rhagoch.

UN OEDD YNO.

'Rwyf am ddweyd gair ar y pen hwn. Cerddor go ifanc ydwyf, ac fel pob un gyda'i gariad cyntaf, 'rwy'n teimlo dipyn yn wresog. 'Roedd yn bleser mawr genyf i fod yn y gymmanfa, a gwneyd yr ychydig allwn er mwyn ei llwyddo. A llwyddiant annghyffredin hefyd y trodd hi allan. Er gwaetha'r gwlaw ofnadwy yn y bore, nid wy'n meddwl fod y tywydd wedi effeithio nemawr ar y cwrdd. 'Roedd pawb yn wresog gyda'r gwaith, a phan mae'r teimladau yn frwd, a'r dysgwyliadau yn uchel, 'does dim a saif ar y ffordd. A'r peth sydd wedi tynu fy sylw i yw y brwdaniaeth sydd yn nghlyn â'r gymmanfa. Ai tybed fod ein sel ni i gyd fel enwad wedi rhedeg i'r

cyfeiriad hwn? 'Rwyf fi wedi clywed hen bobl yn sir Aberteifi yn dweyd fod y cyrddau cwarter yn cael eu hystyried yn bethau mawr iawn rhyw ddeg ar hugain neu ddeugain mlynedd yn ol. Edrychid ar bregethwyr yr oes o'r blaen fel hanner duwiau bron, a mawr oedd y siarad a'r dysgwyl am danynt pan y buasai cwrdd blynyddol tua Pantdefaid, Capelgroes, neu rhyw fan arall. Yr oedd y capeli yn rhy gyfyng i gynnwys y torfeydd a ddeuent yn nghyd, a chawsid oedfaon hwyliog dros ben allan yn yr awyr agored. Yr oedd rhyw faint o hen yspryd Llangeithio yn aros y pryd hwnw hyd y nod yn mhlith yr Undodiaid, a gwelid dynion yn tynu i gwrdd mawr, fel yr elai yr Iuddewon gynt i fyny i'r gwyliau mawrion yn Jerusalem. Wel, dyna'r yspryd iawn yn ddiamheu; ond mae arnaf ofn ei fod wedi diflanu. 'Does fawr o gyffro na chywreinrwydd yn awr yn cael ei ddangos gyda golwg ar ddefnydd crefyddol y cyrddau yma. Mae'r *excitement* bron i gyd yn siopau *milliners* a nythau corynod; ac mae'r pregethwr a'r bregeth wedi cilio i'r cysgod Ond os ydyw'r hen sel at gyrddau pregethu wedi diffodd, 'rwy'n credu yn deg fod sel newydd wedi ei ennyn gyda'r canu cynnulleidfaol. Ac nid drwg i gyd yw e' fod pethau newydd yn d'od i fri, a hen bethau yn golli eu gafael. 'Rwy'n credu fod tuedd pregethu yn ein henwad bach ni wedi bod yn rhy sych a dysgedig. Yr amcan mawr oedd goleuo'r pen, ac wrth hyny annghofid fod gan ddyn galon heblaw pen. Dywedai un o'r llywyddion yn Abertawe pwy ddiwrnod fod canu yn appelio at ran o natur dyn oedd i raddau wedi ei hesgeuluso gan Undodiaeth y gorphenol; os felly, amlwg yw fod Undodiaeth y presennol wedi dihuno at ei gwaith, a dihuno i bwrpas, fel y tystiai y cynnulliad mawr, ardderchog, a llwyddiannus a ddaeth yn nghyd yn Abertawe. Y dystiolaeth gyfredin oedd mai dyma'r gymmanfa oreu o'r cwbl. Rhyfyg ynof fi fyddai cyhoeddi barn beirniaid ar fater nad oes genyf ond gwybodaeth elfenol iawn am dano. Ond nis gallwn help teimlo, fod mwy o fyn'd, mwy o "yspryd y peth byw," mwy o'r yni dirgelaidd hwnw sydd yn gwneyd cerddoriaeth yn gyfrwng deffroad ysprydol yn d'od i'r golwg yn y gymmanfa ddiweddaf nag a welais i erioed o'r blaen. Ymddangosai fod rhyw un brwdfrydedd cyffredinol wedi meddiannu yr holl gantorion. Yr oedd yr arweinydd ar ei oreu, ei hir brofiad bellach wedi ei wneyd yn fwy naturiol a chartrefol; ac yr oedd ei gydnabyddiaeth gyflawn a'r gwahanol gorau wedi sicrhau y fath gyd-ddealldwriaeth rhyngddynt nes yr oedd y canu yn ddarn cyfan, perffeithiedig braidd o'r dechreu i'r diwedd. Er bod y gymmanfa ddiweddaf yn rhywbeth ag mae gyda ni hawl i ymffrostio ynddi, nid yw yn rheswm dros i ni aros ac i hepian. Gwnaed pob un ei ran i'w gwneyd yn sefydliad sydd i aros, ac i aros i fod yn allu mwy o hyd er daioni.

CERDDOR IFANC.

Trodd y gymmanfa allan yn llwyddiant mawr yn ddiamheu. Fy nghred am y canu oedd ei fod yn well nag oedd dair blynedd yn ol. Datganwyd amryw donau yn effeithiol neillduol, yn enwedig Abends, a hono yn fwy enwedig fyth ar y pennill diweddaf. Nid wyf yn cofio

i mi glywed gwell datganiad yn fy mywyd. Nid oedd y cantorion mor lluosog y tro hwn â'r tro o'r blaen; fy ngbred yw, fod yn agos hanner cantorion Sir Aberteifi yn absennol. Un rheswm am hyn oedd, fod y boreu wedi troi allan mor anffafriol; ac achos arall oedd y draul. Nid mater bach i deulu lluosog oedd talu traul cludiad y trên, heb son am dreuliau ereill. Byddai yn well, mewn un ystyr, pe na fuasai ond un cyfarfod wedi ei gynnal. Yr oedd llu o'r cantorion yn eisieu yn y prydnawn: yr oedd y demtasiwn i fyned yn ol i'w cartrefleoedd heb weled rhai o ryfeddodau Tref Abertawe yn rhy gryf; ac nis gellir beio arnynt. Pe buasai un cyfarfod wedi cael ei gynnal yn lle dau, buasid wedi osgoi'r anffawd hon. Nid wyf yn meddwl fod y gymmanfa hon yn ateb y dyben gystal â'r cymmanfaoedd a gynnelir genym yn ein siroedd ein hunain: yr oedd y canu yn y Llwyn y llynedd yn llawn cystal â'r canu yn Abertawe. Yr unig fantais ychwanegol a ddeillia oddiwrth y gymmanfa hon yw, fod Undodiaid Cymru yn cael cyfleusdra i ymgydnabyddu â'u gilydd. Pwy?

NODYNAU GWASGAROG.

TYNGED DYN.

Mr. Gol.,—Yr oeddwn yn falch i weled pregeth ardderchog y Dr. Brooke Herford mewn diwyg Gymreig yn Ymofynydd Ebrill, ac yr wyf yn gobeithio y caiff ddarlleniad manwl, yn enwedig gan ein pobl ieuainc. Ond dyma yr oeddwn am hel ato yn awr, fod darlith y Proffeswr John Fiske ar "Dynged Dyn yn Ngoleuni ei Darddiad" wedi ymddangos yn Yr Ymofynydd eisoes. Gweler 1885, t. 265, ac 1886, t. 25. Mae y ddarlith hon wedi cael canmoliaeth uchel, ond yr wyf yn meddwl fod eich darllenwyr chwi, Mr. Gol., wedi cael cyfleusdra i'w gweled cyn bod nemawr i Sais wedi clywed son am dani. Hyd heddyw, cyst 4/6 i Sais cyn ei pherchenogi. Fe welir pregeth ar "Natur Dyn a'i Dynged" yn Ymofynydd 1882, t. 361; ac erthygl fywgraffyddol ar "Darwin" yn 1882, t. 230.

S.N.S.

LLUN ANNGHRIST, &c.

Llyfr ydyw hwn o 110 t.d., 12mo. Ei awdwr yw y Parch. William Richards, o Lynn, y Bedyddiwr enwog, ac y mae mewn ffurf o lythyron at ryw "Barchedig Gyfaill." Mae y *title page* yn eisieu yn y copi sydd ger fy mron. Dyddiad y llythyr cyntaf yw Ionawr 17, 1790, ac y mae dros 20 td. Rhif y llythyron yw chwech.

Fel hyn y dywed hanesydd y Bedyddwyr: "O ddeutu diwedd y flwyddyn 1788, daeth allan yn Gymraeg, Draethawd ar Fedydd, gan Mr. Benjamin Evans, gweinidog gerllaw Aberteifi, ac yn 1789, daeth atebiad iddo gan William Richard, o Lynn, yn Norffolc, aelod gwreiddiol o Salem, yn Sir Gaerfyrddin, eithaf adnabyddus a'i waith enedigol, ac

à'r ddadl fedyddiol." A dywed awdwr "*Llyfryddiaeth y Cymry*" i Benjamin Evans gyhoeddi ail atebiad, ac i Mr. Richard ateb drachefn.

T.C.U.

AT BAWB.

Anwyl Mr. Gol.,—Can' diolch i'r Dr. Griffiths a chwithau am agor cil y ddor ar y pwnc o ymddiswyddiad y Parch. T. T., Pantdefaid, o'r weinidogaeth. Galwodd y Dr. ar rai o flaenoriaid yr eglwys i ddweyd gair ar y pwnc. Aeth Mr. William Jones, Gelliaur, yn mlaen, ond nis agorodd ddim yn ychwaneg ar y ddor. Pa le yr oedd y gweddill, tybed? Os oedd yno ychwaneg, meddyliais unwaith am esgyn yn lle un o honynt, ac agor y ddor led y pen; ond deallais mewn pryd fy mod fel wedi fy nharo â'r parlys mud, a'm tafod yn glynu wrth daflod fy ngenau. Yna penderfynais ei agor trwy gyfrwng Yr Ymofynydd. Nis gallwn ymddal i wrando ar ereill yn trin y pwnc

Heb i ddeigryn brwd ymdreiglo Fel rhyw berl nefolaidd byw;
Angerdd gwres eiriasboeth cariad Dodda'n hylif galon friw.

Mawr wyf wedi ddysgwyl er's misoedd am i rywun ddechreu galw am dysteb iddo; ond dysgwyl gefais hyd nes y gwelsoch chwi eich dau yn dda agor cil y ddor ddydd y cyrddau. Pell wyf o gredu fod y Parch. T. T. yn hoff o lawer o sebon, ac yn dysgwyl un math o dysteb sylweddol; ond a allwn ni, fel corff o Undodiaid, adael i'r teilyngdod hwn fyned i ebargofiant yn ddisylw? Gwr sydd wedi gweini mewn cannoedd ar gannoedd o angladdau o bob gradd yn mhell ac yn agos, heb weled diwrnod rhy arw iddo erioed, na ffordd yn rhy bell iddo fod yno yn brydlon, heb godi ceiniog ar neb erioed—gwr sydd wedi bedyddio cannoedd lawer o fabanod erioed, heb godi dimai ar neb—gwr sydd wedi gweithio mor galed i ennill ei fara beunyddiol trwy gyfranu ei ddysgeidiaeth mewn amrywiol gangenau i flodau'r oes, y rhai sydd erbyn hyn wedi tyfu i fyny ac wedi ymwasgaru i bedwar ban y byd. Ai tybed, pe clywai y rhai hyn am ei dysteb, na fuasai eu calonau yn hylif o'u mewn? Trwy ei lafur diflino Sul a gwyl, yr oedd ganddo gymmaint o olwg ar ei ddeadell fechan a phe b'ai yn Rhosyn Saron neu lili'r dyffrynoedd. Ni hawliodd geiniog erioed arni—dim ond derbyn ei hewyllys dda hi. Gwelodd rai blynyddau nad oedd yn cael ond cydnabyddiaeth fechan iawn; er hyny, derbyniai hi mor llon ac mor llariaidd a phe b'ai yn cael rhyw swm anrhydeddus iawn. Ac etto i gyd, mae Rhagluniaeth wedi peru i ffawd wenu arno!

Ddoctoriaid, Ddoctoriaid! deffrowch, deffrowch, a holl wyr llen, y rhai ydych wedi tramwy trwy brif golegau ein gwlad, a rhoddwch wybod i'r byd, trwy gyfrwng yr Ymofynydd, a gyfarfuoch â rhyw iaith yn un o honynt y gallesid gosod allan hanner rhinweddau y dyn hwn mewn cyfrol gan lleied a hen Feibl mawr Peter Williams. Ond gallaf ateb yn eich lle, os dewiswch, Naddo, erioed. Pa ddewin a ddywed faint mae wedi wneyd dros y grefydd bur, ddihalogedig, &c., dros yspaid saith mlynedd a deugain o amser, a maint gwerth yr

effaith a ddeillia o'r calonau celyd sydd wedi toddi yn hylif dan ei ddylanwad. Deued un o'r galluocaf o blant gwragedd i'r maes, ac ymafled yn y pwnc o ddifrif. Nid wyf fi ond un o'r eiddilaf yn treio agor y ddor; ond mawr hyderaf y caf weled yn fuan iawn dri neu bedwar o enwau personau wedi eu neillduo i dderbyn rhoddion sylweddol o wir ewyllys calon, o'r hatling leiaf hyd y penaduriaid melynion.

UN A'I HATLING YN BAROD.

Manion ac Hanesion.

LLWYNRHYDOWEN—*Gwyl de.*—Cynnaliodd yr eglwys hon ei gwyl de flynyddol yn Hen Gapel y Llwyn, dydd Mercher, Mai 16eg. Cafodd aelodau yr Ysgol Sul a'r eglwys eu gwledda â the a bara brith yn neuadd gyhoeddus Alltyrodin Arms. Yr oedd y byrddau wedi eu gosod yn ddestlus iawn, y blodau arnynt yn rhoddi gwedd attyniadol ar y cyfan. Ar ol i'r te fyned drosodd, ymneillduodd y plant, ac ereill, i'r hen gapel, ac yno yr oedd Mrs. Jones, Gellifaharen, wedi darparu gwledd annysgwyliadwy iawn. Yr oedd yno "bran pie" yn cynnwys addurniadau destlus, a lluaws o bethau defnyddiol. Traddododd Mrs. Jones araeth hynod bwrpasol i'r amgylchiad, ac annogodd y plant, un ac oll, i fod yn ffyddlon yn ystod y flwyddyn ddyfodol, a dymunodd arnynt fod yn aelodau selog o'r achos yn y lle. Yna cafwyd cyfarfod adloniadol. Appwyntiwyd y Parch. T. Thomas, Greenparc, i'r gadair, a Mr. W. Thomas, Siop Rhydowen, yn arweinydd. Ar ol i Mr. D. Davies, Cwmnant Fach, draddodi anerchiad barddonol yn llawn o'r awen fyw, adroddodd a chanodd yr Ysgol Sul am dros dair awr yn hynod felus. Arweiniodd Mr. J. Jones, y Felin, a Mr. J. R. Thomas, y golfeistr, y gwahanol bartion a'r cor yn feistrolgar. Ar ol i'r Parch. W. J. Davies, gweinidog y lle, dalu diolchgarwch i Mrs. Jones, Gellifaharen, Mr. a Mrs. Evans, Alltyrodin Arms, boneddigesau yr eglwys am weinyddu, y cantoresau a'r cantorion, ac yn olaf, ond nid y lleiaf, y Parch. T. Thomas, y cadeirydd, a Mr. W. Thomas, y Siop, canwyd "Hen Wlad fy Nhadau." Yna, ymadawodd pawb wedi eu llwyr foddloni. Ennillwyd y gwobrwyon fel y canlyn:—Adrodd "Y mab afradlon," D. S. Evans, Pontshan; ail, Dinah Jones, Gelliaur; Llawysgrifen, Hannah Evans, Pandy; ail, Eliza Williams, y Rheol; Araeth fyrfyfyr, W. J. Jones, Pontshan; Adrodd "Y dedwydd dri," D. S. Evans; ail, J. Jones, y Felin; Cyfansoddi pennill, D. Davies, Cwmnant Fach; ail, D. S. Evans. Y beirniaid oeddynt y Parch. T. Thomas, Mr. Samuel Lewis, Mr. J. R. Thomas, a Mr. James Jones.

Marwgofion.

Ebrill 3, yn 71 mlwydd oed, George Parry, gynt o Rydfach, Llanwnen. Treuliodd ran fawr o'i oes yn nghymmydogaeth Alltyplacca, a bu yn aelod ffyddlon a pharchus o'r eglwys hono am flynyddau. Bu farw yn y Wig, Morganwg, yn nhy ei fab, y Parch. W. Parry, a chladdwyd yn mynwent y capel yno, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. W. Davies, gweinidog yr eglwys Fethodistaidd gyfagos.

Ebrill 15, Mary Jones, gweddw Simon Jones, Rhydyfene, Llandyssul, yn 49 oed. Yr oedd Mrs. Jones yn fenyw dawel, garedig, ac yn hynod am ei challineb. Yr oedd wedi claddu ei phriod er ys blynyddau, ac ymdrechodd yn galed, a hyny gyda mesur helaeth o lwyddiant, i ddwyn i fyny ei phump plentyn yn aelodau ffyddlon o Eglwys Dduw, ac yn addurn i gymdeithas. Bu Mrs. Jones yn aelod selog o eglwys Llwynrhydowen hyd ei hangeu. Y dydd Mercher canlynol, daeth cynhebrwng lluosog i dalu iddi eu cymmwynas olaf drwy ei chludo i gladdfa Llanwenog, lle y gor-

phwys gweddillion ei phriod. Yn y ty, cymmerodd y Parchn. T. Thomas, Pantdefaid, a J. Davies, Alltyplacca, ran yn y gwasanaeth defosiynol, a phregethodd y Parch. W. J. Davies, gweinidog yr ymadawedig. Boed i wenau yr Arglwydd ddisgyn ar y plant yn ystod eu taith drwy y byd.

Mai 7, ar ol cystudd byr o ryw bedwar niwrnod, yn 66 mlwydd oed, Mrs. Alice Rees, priod Richard Rees, Railway Terrace, Cwmaman, Aberdar. Claddwyd ei gweddillion marwol y dydd Gwener canlynol yn Mynwent Gyhoeddus Aberdar. Gadawodd ar ei hol un mab a thair merch mewn galar dwfn ar ol colli mam dyner. Yr oedd yn Undodwraig o'r iawn ryw, er ei bod, er's tipyn, yn methu myned i un cwrdd. Darllenodd Yr Ymofynydd hyd y diwedd. Gwasanaethwyd yn y ty ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Humphreys (B.), Cwmaman, yn dra effeithiol.

Mai 7, Elizabeth Jones, merch David (diweddar) a Mary Jones, Lletty'rtwpa, ger Llanbedr, yn 62 mlwydd oed. Bu'n gwaelu am gryn amser, ac yr ydym yn deall na fu hi erioed yn gryf o ran iechyd; ond ar y dydd uchod syrthiodd y babell briddlyd, a dychwelodd yr ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes. Cartrefai gyda'i mam oedranus; ac ergyd caled i'r hen wraig—yr hon sydd tua 94 mlwydd oed—oedd ei cholli, a chael ei gadael wrthi ei hun yn yr oedran uchod, er ei bod braidd mor sionc a llawer merch ugain oed; a'r glust, gan nad beth am y llygad, yn hollol graffus. Mae, mewn gwirionedd, yn syndod ei gweled. Ar ddydd yr angladd, daeth torf yn nghyd i dalu i'r ymadawedig y gymmwynas olaf, ac i ddangos eu cydymdeimlad â'r hen wraig a'r perthynasau ereill. Claddwyd yn mynwent y plwyf. Gweinyddwyd yn y ty gan y Parch. Jno. Evans (C.M.), ac yn yr Eglwys gan yr offeiriad.

Mai 18, yn 38 mlwydd oed, Mary Williams, merch Thomas Williams, o'r Wig, Morganwg. Yr oedd wedi bod yn dra gwanaidd er ys blynyddau; er hyny, parodd ei marwolaeth dra sydyn syndod a galar dwys i'w pherthynasau helaeth, ac i'r gymmydogaeth. Yr oedd yn ferch ystyriol a darbodus, a bydd ei cholli yn golled fawr i'w thad, ac ereill o'r teulu. Claddwyd yn mynwent Capel y Wig, a gwasanaethwyd gan y Parch. W. Parry.

Mai 25, o'r *inflammation*, Mrs. Thomas, anwyl briod Mr. David Thomas, *accountant*, County Court Office, Llanbedr, yn 51 mlwydd oed. Ni chafodd ond ychydig ddyddiau o gystudd, a gorfu arni ymadael, a thori i fyny gyssylltiadau hoff bywyd braidd heb yn wybod iddi ei hun. Machludodd ei haul megys ar hanner dydd, a phan ymddangosai'n llewyrchu yn fwy digwmmwl nag erioed yn hanes ei bywyd—yr amgylchiadau bydol yn ffafriol, y plant wedi tyfu i fyny, ac o un i un a'u gwynebau ar fywiolaethau cysurus, a chalon bryderus y fam, fel canlyniad, yn mawr lawenhau, a threfniadau lawer yn cael eu gwneyd ar gyfer y dyfodol; ond nid meddyliau dyn yw meddyliau Duw—"Bwriadau lawer sydd yn nghalon dyn: ond cynghor yr Arglwydd, hwnw a saif." Nid oedd iechyd Mrs. Thomas yn dda er ys blynyddau lawer; ac ar bwys gwaelder ei hiechyd, a'i gofal pryderus a gwastadol am bob aelod o'r teulu, a'i chyfrwysder diniwed, a'i ffraethineb miniog a pharod, a'r *interest* a deimlai'n holl symmudiadau pwysig a dibwys ei phriod a'i phlant, yr oedd yn frenines yn ei theulu, ac yr oedd ganddi orsedd yno wedi ei hadeiladu ganddi ei hun, ac ni fedrai neb eistedd arni ond ei hunan. Heddyw, mae'r orsedd yn wag, a'r galarwyr, druain, yn methu sylweddoli'n iawn beth sydd yn bod, gan mor dywyll y cwmmwl, a sydyn y cyfnewidiad. Gweinyddwyd arni'n dirion ac ewyllysgar yn ei chystudd olaf, fel ar lawer adeg arall, gan ei merch henaf—Miss Polly Thomas, a phan oedd ei mam yn y glyn, glynodd wrthi ddydd a nos, ac hebryngodd hi'n dyner a gofalus, ac hynod o wrol, hyd lan yr afon; ac ni laciodd ei gafael o gwbl hyd nes i angeu, ar ol brwydr galed a phenderfynol, ei chipio o'i mynwes. Gadawodd briod a phump o blant, a brawd a chwaer, ar ol mewn galar. Yr oedd maint yr angladd—un o'r rhai mwyaf yn Llanbedr er ys blynyddau—yn arddangosiad o'r parch oedd gan bell ac agos i'r ymadawedig a'i theulu. Claddwyd yn mynwent y plwyf. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Evan Evans, Soar, ei gweinidog; yn y drws, gan R. C. Jones, Brondeifi; ac yn yr Eglwys, gan yr offeiriad.

Mehefin 17, yn nhy ei chwaer, Vine Cottage, Drenewydd yn Nottais, y Parch. Evan William Lloyd, gynt o'r Cwmbach, yn 61n oed. Manylion pellach mewn rhifyn dyfodol.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.



Y Parch. John Davies, Alltyplaca.